**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Ionawr 2017 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Miss S. L. Roberts (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs. W. Mullen-James, S. H. Ratcliffe, D. Simmons, T. Thomas a'r Parchedig S. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 85. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), Mrs. P. M. Jones (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), P. Prendergast (ar wyliau), A. J. Rutherford (yn sâl), Miss R. Siddall (yn sâl), W. N. Tasker (ar wyliau) a Miss C. L. Williams (yn sâl).

## 86. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – TACHWEDD 2016

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau a wnaed ym mis Tachwedd 2016.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 154 | Link Mailing Systems | 217.12 | Cetris Inc Ffrancio |
| 155 | Conrad | 78.84 | Papur Gwyn A4 |
| 100 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 6,650.00 | Taliadau Gwasanaeth Ffordd Wellington Chwarter 3 2016/17 |
| 156 | Sage & Co | 30.00 | Ffioedd cyflogres misol Tach 2016 |
| 157 | HSBC | 12.66 | Taliadau Banc 17 Medi i 16 Hydref 2016 |
| 158 | Gunsmoke Comms | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Hydref 2016 |
| 159 | Canda Copying | 163.64 | Copïau lliw |
| 160 | Canda Copying | 352.54 | Rhentu peiriant copïo a chopïau du a gwyn |
| 161 | N&MWALC | 80.00 | Ffi Tanysgrifio 2016/17 |
| 162 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,253.62 | Cyflogau Staff CTR Tachwedd 2016 |
| 014 | Cyngor Sir Ddinbych | 510.00 | Treth Cyngor 2016/17 Rhandaliad 8 o 10 |
| 085 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,833.33 | Gweithiwr Apêl Tachwedd 2016 |
| 163 | Cyngor Sir y Fflint | 3,595.50 | Didyniadau Pensiwn Hydref 2016 + cyllid diffyg |
| 164 | HMRC | 2,423.61 | Didyniadau PAYE Hydref 2016 |
| 165 | Neopost | 200.00 | Ychwanegiad Peiriant Ffrancio |
| 166 | R Petrou - A Little Magic | 240.00 | 12 Diwrnod Nadolig – Digwyddiad Frozen |
| 167 | Westminster Hotel | 600.00 | Arlwyo Diwrnod Coffa |
| 168 | Canda Copying | 81.60 | Staplau ar gyfer Peiriant Copïo |
| 169 | Sioned Graham-Cameron | 30.56 | Ffïoedd Cyfieithu Hydref 2016 |
| 170 | NWN Media | 120.00 | Hysbyseb Sul y Coffa |
| 171 | Tennis Bwrdd Cymunedol y Rhyl | 350.00 | 12 Diwrnod Nadolig – Digwyddiad Ping Pong |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 172 | HSBC Petty Cash | 200.00 | Arian Mân |
| | | | |
| | **Cyfanswm Taliadau** | **25,463.02** | |
| | | | |
| | HSBC | 9.60 | Llog ar adneuon 7 Day Money Market |
| | Santander | 19.11 | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod |
| | Caerwys LM Edwards (Maer +1) | 50.00 | 2 x Docyn Dawns Gaeaf y Maer (Ad-dalwyd Rhagfyr 16) |
| | Cyngor Sir Ddinbych | 50.00 | 2 x Docyn Dawns Gaeaf y Maer (Ad-dalwyd Rhagfyr 16) |
| | | | |
| | **Cyfanswm Derbynebau** | **128.71** | |
| | | | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**87. BUDDSODDIADAU 2016/17 - ADNEUO**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i adneuo cyllid.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adneuo.*

**88. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN (BRIGHTON ROAD) (CYFYNGU AROS) 201**

Adroddodd y Cadeirydd bod yr uchod wedi ei dderbyn i'r Aelodau ei ystyried (dosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y Gorchymyn.*

**89. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – DIGWYDDIAD YMGYNGHORI 19EG IONAWR 2017 LLANDUDNO**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod, yn gwahodd y Cyngor Tref i benodi dau gynrychiolydd i fynychu (dosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENERFYNWYD*** *bod y Cynghorydd A. R. James a Chlerc y Dref yn mynychu.*

**90. EITEM GAN AELOD: COLOFN OLEUO STRYD YCHWANEGOL, HILTON DRIVE, Y RHYL**

Hysbysodd y Cynghorwyr B. Mellor a D. Simmons bod yr eitem uchod wedi ei thynnu'n ôl.

***PENDERFYNWYD*** *tynnu'r eitem yn ôl.*

**91. EITEM GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd materion brys i'w codi.

**92. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**93. SIOP CYNGOR AR FUDD-DALIADAU**

Ymhellach i gofnod rhif 34 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Gorffennaf 2016, cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r argymhellion mewn perthynas â chyfraniad ariannol y Cyngor tuag at swydd ran-amser Swyddog Apeliadau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r argymhellion.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.*

**94. CYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT**

Ar ran y Pwyllgor CSG, cyflwynodd Clerc y Dref ei argymhellion i'r cyfarfod, gan gymryd i ystyriaeth alldro gwariant tebygol 2016/17, gwariant a ragwelir ar gyfer 2017/18, yr argymhellion ar gyfer gwariant yn 2017/18 a'r tri opsiwn ar gyfer codi praesept 2017/18.

Hysbysodd y Clerc y cyfarfod bod Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, y Cynghorydd P. Prendergast, a'r Cynghorydd D. Simmons (ar ran y Pwyllgor CSG) wedi mynd trwy'r gyllideb gyfan gydag ef ac wedi gwneud eu hargymhellion.

Roedd yr argymhellion hynny wedi mynd gerbron y Pwyllgor CSG, ac roedd eu hargymhellion nhw yn yr adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Aeth y Clerc trwy bob 'pennawd' ac fe ***BENDERFYNWYD*** ar y canlynol*:*

*i)* *cynyddu cyfraniad y Cyngor Tref tuag at Sioe Awyr y Rhyl, o £7,500 i £10,000;*

*ii)* *rhoi £5,000 tuag at gostau seilwaith y diwyddiad Coast to Coast;*

*iii)* *lleihau'r Gyllideb Gwasanaethau a Gomisiynir gan £5,000 wrth ystyried (ii) uchod;*

*iv)* *cymeradwyo sefydlu cronfa wrth gefn "Prosiecau Mawrion' a throsglwyddo'r arian heb ei wario ar gyllidebau 'Goleuadau ar y Promenâd' ac 'Ailwampio Nodweddion Dŵr' i mewn iddi;*

*v)* *bod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn argymell Opsiwn 2 i'r Cyngor, gan gymeradwyo a chodi praesept o £497,629 (Pedwar Cant a Naw Deg Saith Mil, Chwe Chant a Dau Ddeg Naw o Bunnau) ar Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1af Ebrill 2017;*

*vi)* *Arolygu Strategeth Rheoli Trysorlys / Buddsoddiad yng nghyfarfod y Cyngor i'w gynnal ar 18fed Ionawr ar ôl derbyn argymhellion y pwyllgor CSG.*

## 95. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

## 96. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:………………..……..

Dyddiad:………………………